Cymdeithas Tai Teulu (Cymru) Cyf

Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol

1. Cyflwyniad

Mae Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n amlinellu'r fframwaith a'r gofynion sy'n rhaid i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru lynu atynt wrth ffurfio a gweithredu eu Strategaethau Cyfranogiad Tenantiaid Lleol. Mae'r Strategaeth a osodir isod yn ceisio cydymffurfio â gofynion y Strategaeth Genedlaethol, ac mae'n amlinellu'n glir sut mae Cymdeithas Tai Teulu'n bwriadu gwireddu dymuniadau ei thenantiaid i gynyddu ansawdd a gorchwyl Cyfranogiad Tenantiaid.

2. Gofynion Rheoleiddio

Yn ogystal â'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Cenedlaethol y cyfeirir ati uchod, caiff canllawiau ar Gyfranogiad Tenantiaid ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru eu hamlinellu yn "Y Côd Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru", sy'n nodi disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r "Gwarant i Breswylwyr Cymdeithasau Tai" (2004) hefyd yn cyfeirio at Gyfranogiad Tenantiaid. Yn ogystal, mae Deddf Tai 1985 yn rhoi'r hawl i denantiaid diogel i gael eu hysbysu a'u hymgynghori ynghylch newidiadau arfaethedig o ran rheoli tai neu o ran darpariaeth y gwasanaethau neu'r amwynderau. Mae'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol yma wedi cael ei datblygu drwy gymorth gwybodaeth a gasglwyd gan TPAS, sydd wedi gweithredu fel ymgynghorydd i'r Gymdeithas.

3. Cefndir a Sefyllfa Gyfredol

Fe sefydlwyd Cymdeithas Tai Teulu yn 1975, ac mae wedi darparu tai sydd wedi'u dylunio'n dda a gwasanaethau rheoli dosbarth cyntaf i bobl sydd ddim yn gallu fforddio rhentu neu brynu'n breifat yn yr ardaloedd y mae'n gweithredu ynddynt. Ar hyn o bryd, mae'r Gymdeithas yn rheoli bron i 2,400 o dai drwy gydol Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot, er mwyn cwrdd ag anghenion tai â chymorth amrywiol ystod eang o bobl. Mae datganiad cenhadaeth y Gymdeithas fel a ganlyn: "'Rydyn ni'n darparu tai a gwasanaethau o ansawdd uchel, a'n rhoi cymorth a help i bobl pan fo angen.'

Mae ymrwymiadau corfforaethol y Gymdeithas fel a ganlyn:

- Darparu gwasanaeth tai o ansawdd uchel, sy'n sensitif i anghenion ein cwsmeriaid.
- Rhoi cyngor, gofal a chymorth i'r rhai hynny sydd eu hangen, i fyw yn annibynnol.
- Datblygu tai o ansawdd uchel, sy'n sensitif i anghenion y cymunedau y mae'r Gymdeithas yn gweithio ynddynt.
- Gwneud yn siŵr fod holl weithgareddau busnes y Gymdeithas yn gynaliadwy a'n sensitif i'r amgylchedd.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantau eraill er lles y gymuned.

FFAITH

Fel rhan o'i phroses cynllunio busnes, fe wnaeth y Gymdeithas ddarganfod bod angen iddi ddatblygu a gwella ansawdd ac ystod Cyfranogiad Tenantiaid. O ganlyniad, fe wnaeth y Gymdeithas gomisiynu TPAS Cymru i gynnal adolygiad annibynnol a wnaethpwyd yn ystod tymor yr haf 2007. Mae'r argymhellion a'r Cynllun Gweithredu sydd wedi deillio o'r adolygiad wedi llywio datblygiad y Strategaeth hon, ac mae wedi arwain, ymysg pethau eraill, at benodi Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid llawn amser.

4. Cyfranogiad Tenantiaid – y Gorffennol a'r Presennol

A. *Panel Tenantiaid*

Mae Panel Tenantiaid Cymdeithas Tai Teulu wedi bod yn rhedeg am tua 12 mlynedd, a hwn oedd y Panel Tenantiaid cyntaf i gael ei sefydlu yn sir Gorllewin Morgannwg. Mae gan y panel 25 aelod llawn erbyn hyn, sy'n cwrdd gyda Swyddogion y Gymdeithas pob chwe wythnos mewn amryw o fannau mewn lleoliadau gwahanol. Mae'r Panel wedi gwahodd ystod o siaradwyr i'w gyfarfodydd dros y blynyddoedd, ac mae aelodau wedi cymryd rhan hefyd mewn datblygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau, ac mewn adolygu nifer sylweddol o wasanaethau. Mae'r Panel wedi bod, ac yn parhau i fod, yn llwyddiant mawr, ac mae wedi bod yn bwysig iawn o ran cyflwyno newidiadau pwysig yn y Gymdeithas (e.e. Tenantiaethau Rhagarweiniol, Cynllun Yswiriant Tenantiaid). Mae gan y Panel ei gyllideb hael ei hun a ddyrannwyd gan y Gymdeithas, ac ar hyn o bryd, mae'n archwilio ffyrdd o ddenu hyd yn oed mwy o adnoddau, er enghraifft, gan rai o gontractwyr mwy'r Gymdeithas.

B. *Bwrdd Rheoli*

Cymdeithas Tai Teulu oedd un o'r Cymdeithasau cyntaf yng Nghymru i ddyrannu llefydd ar ei Bwrdd Rheoli i denantiaid, ac ar hyn o bryd, mae hi'n rhoi aelodaeth lawn i Gadeirydd y Panel Tenantiaid ac i un tenant arall. Mae gan y Bwrdd ymrwymiad parhaus i denantiaid sy'n eistedd ar y Bwrdd, ac mae'n gwerthfawrogi'r cyfraniad maen nhw'n wneud.

C. *Grwpiau Ffocws*

(i). Mae sawl Grŵp Ffocws wedi bod yn rhedeg ers mis Awst 2008, sy'n archwilio'r Côd Ymddygiad i Gontractwyr, y System Apwyntiadau a chwblhau atgyweiriadau'n Gywir y Tro Cyntaf. Yn ogystal, mae tenantiaid wedi mynychu cyfarfodydd gyda chontractwyr dros y 12 mis diwethaf, gan drafod gweithdrefnau a pherfformiad ac ystod o fentrau eraill ar y cyd.

Yn ystod y Gwanwyn 2008, roedd yn bleser gan Gymdeithas Tai Teulu gyhoeddi'r ffaith fod y Panel Tenantiaid wedi ennill Grant Grymuso Tenantiaid i sefydlu Grŵp i Denantiaid ar Wasanaethau Eiddo sydd wedi cychwyn rhoi cynllun gwaith at ei gilydd erbyn hyn. Fe fyddan nhw'n cymryd rhan yn y grwpiau ffocws a'r cyfarfodydd prif ffrwd, a'n cyflwyno adborth i'r Panel Tenantiaid.

(ii). Yn ogystal, mae Cymdeithas Tai Teulu wedi creu Grŵp i Denantiaid ar Reoli Tai sydd ar hyn o bryd, yn drafftio set o safonau gwasanaeth. Fe ragwelir hefyd, y bydd nifer o grwpiau ffocws yn cael eu datblygu i gynorthwyo i wella'r gwasanaethau sy'n cael eu dosbarthu gan y Tîm Rheoli Tai.

(iii) Mae Adran Prosiectau Arbennig y Gymdeithas wedi cynnal nifer o grwpiau ffocws i denantiaid sy'n trafod adolygu polisïau, sy'n cynnwys ymddygiad heriol, darpariaeth bwyd ac ati.

CH. Gwelliant Parhaus

Mae Cymdeithas Tai Teulu yn parhau i ymglymu tenantiaid yn ei Hadolygiadau o Welliannau Parhaus sy'n archwilio effeithiolrwydd a gwerth meysydd penodol o'i gwasanaethau.

D. *Cymdeithasau Preswylwyr*

(i). Ar hyn o bryd, mae gan y Gymdeithas sawl Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr wedi'u sefydlu, sy'n ffynnu. Maen nhw'n aml yn cael eu sefydlu mewn ardaloedd lle mae nifer dwys o dai, i alluogi tenantiaid i fod yn drefnus wrth ddelio gyda materion sy'n effeithio

arnyn nhw. Yna, gallan nhw gyfathrebu eu barnau i'r Gymdeithas mewn ffordd drefnus. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr fod pob Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr yn cael eu cynrychioli ar y Panel Tenantiaid.

(ii). Mae gan y Gymdeithas sawl grŵp cymdeithasol anffurfiol a chlybiau garddio sy'n bodoli'n bennaf oddi mewn y cynlluniau cysgodol. Mae'r rhain yn ffordd dda o gael tenantiaid i gymryd rhan, ac mae'n dod â nhw at ei gilydd drwy weithgareddau cymdeithasol, nid yn unig ar safleoedd eu hunain ond hefyd, drwy alluogi tenantiaid i rwydweithio gyda chynlluniau eraill.

DD. *Cystadlaethau*

(i). Mae'r Gymdeithas yn cynnal cystadleuaeth arddio flynyddol sydd â sawl categori gwahanol, sy'n galluogi unigolion sydd â gerddi neu safleoedd cyfan i gymryd rhan gyda'i gilydd.

(ii). Mae'r Gymdeithas yn cynnal twrnamaint golff blynyddol, sy'n dod â chontractwyr, staff a thenantiaid at ei gilydd i gystadlu am dlws. Mae ein contractwyr yn helpu i noddi'r gystadleuaeth hon.

E. *Ymweliadau Safle*

Mae'r Prif Weithredwr, Cadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd y Panel Tenantiaid yn ymweld â'r safleoedd mwy yn rheolaidd, gan roi cyfle i denantiaid i gwrdd â nhw ac i fynegi eu barnau, ac i drafod unrhyw feysydd sy'n achosi pryder iddyn nhw.

F. *Cylchlythyr y Tenantiaid*

Mae cylchlythyr y tenantiaid *"Family Matters"* wedi cael ei ddosbarthu i denantiaid am nifer o flynyddoedd, ac mae'n declyn defnyddiol er mwyn darparu gwybodaeth ac er mwyn ymgynghori â thenantiaid. Mae 2 denant ar y grŵp golygyddol, ac mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'w cynorthwyo nhw gyda'r dasg hon.

FF. *Arolygon*

Mae'r Gymdeithas yn cynnal arolygon yn rheolaidd fel holiaduron boddhad ar ôl gwneud atgyweiriad (mae'r rhai hynny sy'n llenwi holiadur yn cael eu rhoi mewn cystadleuaeth), arolygon i denantiaid newydd (i weld sut mae tenantiaid yn ymgartrefu), ac arolygon gwerth gorau. Hefyd, mae'r Gymdeithas yn cynnal 3 arolwg boddhad cwsmer (STATUS) y flwyddyn. Fe wnaeth Adran Prosiectau Arbennig y Gymdeithas ymgynghori â thenantiaid fel rhan o'i gwerthusiad blynyddol o'r gwasanaeth a gynhaliwyd gan Opinion Research Services Ltd.

G. Ymgynghoriad Rheoleiddio gyda Thenantiaid

Caiff archwiliadau blynyddol eu cynnal gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r timau Cefnogi Pobl. Maen nhw'n ymgynghori gyda thenantiaid tai â chymorth fel rhan o'r broses archwilio.

NG. Hyfforddiant i Staff

Mae Adran Prosiectau Arbennig y Gymdeithas wedi datblygu pecyn hyfforddi pwrpasol gyda TPAS Cymru ar Gyfranogiad Tenantiaid ac Ymgynghori'n effeithiol â Thenantiaid mewn tai â chymorth.

H. Polisi Prosiectau Arbennig Cyfranogiad Tenantiaid ac Ymgynghori â Thenantiaid.

Mae'r polisi uchod wedi cael ei adolygu i wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu strwythur cyfredol y sefydliad, a sut mae'r Gymdeithas yn ymgynghori â thenantiaid. Mae'n darparu cyfleodd i denantiaid i ddatblygu'r gwasanaethau maen nhw'n derbyn (Gweler Atodiad 1).

5. Y Broses o Ddatblygu'r Strategaeth

Roedd y Gymdeithas eisiau i denantiaid fod ynghlwm o'r cychwyn. O ganlyniad, fel rhan o'r broses, fe wnaeth Cymdeithas Tai Teulu sefydlu grŵp llywio gyda chynrychiolwyr o bob adran, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Panel Tenantiaid a sawl tenant arall. Fe gynhaliwyd digwyddiad cychwynnol gyda'r grŵp i ganfod nodau ac amcanion allweddol. Fe gynhaliwyd tri grŵp ffocws, oedd yn cynnwys y corff mwy eang o denantiaid yn y tair ardal daearyddol y mae'r Gymdeithas yn gweithio ynddynt. Fe gynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd o'r grŵp llywio i edrych ar y broses o ddrafftio Strategaeth a chynllun gweithredu. Yn ogystal, fe drafodwyd copi drafft o'r strategaeth gyda Phanel Tenantiaid y Gymdeithas.

6. Gorchwyl y Cyfranogiad

Mae Cymdeithas Tai Teulu'n cydnabod nad yw pob tenant eisiau cymryd rhan mewn gwella gwasanaethau tai, ond fe fydd yn gwneud yn siŵr fod pob tenant yn cael y cyfle i gymryd rhan ar ba bynnag lefel maen nhw'n ddewis, mewn ffordd sy'n eu gweddu nhw orau. Mae Cymdeithas Tai teulu'n cydnabod hefyd, bod rhwystrau o ran cymryd rhan, ac fe fydd yn gwneud ei gorau glas i wneud yn siŵr fod yr holl denantiaid yn cael y cyfle i gymryd rhan. Mae canlyniadau'r adolygiad STATUS mwyaf diweddar a gynhaliwyd gan y Gymdeithas hefyd wedi dylanwadu ar weithrediadau allweddol y strategaeth hon.

FFAITH

Fe wnaeth adolygiad STATUS a gynhaliwyd yn 2008 ar gyfer Cymdeithas Tai Teulu gofnodi fod bron i 70% o'r holl rai hynny a wnaeth ymateb i'r adolygiad, yn hapus i dderbyn ymgynghoriad ynghylch materion sy'n effeithio ar eu cartrefi drwy lythyr (37.1%), Ffôn (19.3%) a'r Cylchlythyr i Denantiaid (13.2%). Hefyd, allan o'r 400 neu debyg o'r rhai hynny a wnaeth ymateb, ac a gymrodd y cyfle i sylwebu'n agored ar sawl agwedd o wasanaethau'r Gymdeithas, yn feirniadol ar adegau, ni wnaeth un ohonynt gymryd y cyfle i feirniadu'r Gymdeithas am y diffyg cyfle o ran cyfranogiad tenantiaid. I orffen, fe wnaeth yr adolygiad a gynhaliwyd gan Opinion Research Services yn 2008, amlygu'r ffaith fod yn well gan 62% o denantiaid tai â chymorth gyfathrebu wyneb yn wyneb, yn hytrach na drwy lythyr ac ati.

7. Nodau ac Amcanion

NOD CYFFREDINOL

Mae Cymdeithas Tai Teulu wedi'i hymrwymo i wneud yn siŵr fod gan bob tenant y cyfle i gymryd rhan mewn datblygu ansawdd tai a'r gwasanaethau cymorth. O ganlyniad, nod cyffredinol Cymdeithas Tai Teulu o ran datblygu a dosbarthu'r Strategaeth hon yw gwella ansawdd a darpariaeth y gwasanaethau i'w thenantiaid drwy wella cyfranogiad tenantiaid o ran cynllunio a gweithredu gwasanaethau Cymdeithas Tai Teulu.

Mae Cymdeithas Tai Teulu'n cydnabod:

- Bod rhaid i anghenion a gofynion tenantiaid fod yn sail i'r gwasanaethau, ac y gall Cyfranogiad Tenantiaid effeithiol o ran sefydlu a monitro safonau wella ansawdd gwasanaethau.

- Bod rhaid i bob tenant gael Cydraddoldeb mynediad at wasanaethau ac at Gyfranogiad Tenantiaid, er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau'n addas ar gyfer yr amrywiaeth o grwpiau ac unigolion

- Pwysigrwydd y gymuned ehangach a materion amgylcheddol o ran rheoli tai a'r gwasanaethau tai, ac ar gyfer ansawdd bywyd y tenantiaid.

FFAITH

Yn ystod y broses o ddatblygu'r Strategaeth, fe wnaeth tenantiaid sylwebu ynghylch y ffaith bod cynnwys cymunedau'n syniad da, er y byddai cyfyngiadau o ran beth allai gael eu cyflawni oherwydd maint cymharol fach ystadau'r Gymdeithas.

Prif Amcanion

Mae'r prif amcanion fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau uchod fel a ganlyn:

1. I wella ein gwasanaethau, a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cwrdd ag anghenion ein tenantiaid

Y peth pwysig o ran gwella gwasanaethau yw gwrando ar denantiaid ac ystyried beth sydd ganddynt i'w ddweud. Yn aml, fe fydd hyn yn golygu cynnwys tenantiaid wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau. Fe fydd y gwasanaethau y mae gwahanol grwpiau o denantiaid eu hangen yn amrywio, a bydd angen i wasanaethau fod yn hyblyg er mwyn cwrdd â'r anghenion amrywiol yma. Mae angen monitro perfformiad a hysbysu tenantiaid ynghylch datblygiad.

Dyma sylwadau cyffredinol:

- I gasglu barnau tenantiaid yn rheolaidd er mwyn cynorthwyo i lunio'r gwasanaethau sy'n cael eu dosbarthu i denantiaid.
- I osod safonau gwasanaeth ar gyfer yr holl wasanaethau gyda thenantiaid.
- I fonitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn safonau gwasanaeth, a chynnwys tenantiaid yn y broses asesu ac adolygu.
- I gynnwys tenantiaid yn y prosesau adolygu a datblygu polisïau perthnasol.

FFAITH

Mae gwaith datblygu wedi cychwyn ers peth amser i gynyddu Cyfranogiad Tenantiad ym maes atgyweiriadau a chynnal a chadw, ac mae'r ymrwymiadau penodol canlynol wedi cael eu canfod:

- I sicrhau agwedd 'cywir tro cyntaf' tuag at atgyweiriadau
- I gael tenantiaid i gymryd rhan mewn apwyntio contractwyr.
- I ddatblygu côd ymddygiad i gontractwyr.
- I gael tenantiaid i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â dylunio, gosodiad a deunyddiau.
- I gael tenantiaid i gymryd rhan mewn gosod safonau gwasanaeth

2. I ddatblygu diwylliant o gynnwys y tenant ac i hyrwyddo ethos Cyfranogiad Tenantiaid o fewn Cymdeithas Tai Teulu a'r corff mwy eang o denantiaid.

Er mwyn integreiddio cyfranogiad tenantiaid yn llwyr o ran trefniant Cymdeithas Tai Teulu, fe fydd angen, i ryw raddau, i gyflwyno rhywfaint o newid i ddiwylliant gwaith y Gymdeithas. Er mwyn gweithredu hyn, fe fydd Cymdeithas Tai Teulu:

- Yn datblygu strwythur 'hyrwyddwyr cyfranogiad' gyda hyrwyddwr ym mhob adran yn cael eu harwain gan uwch reolwyr, er mwyn sefydlu cyfranogiad tenantiaid ym mhrif ffrwd y sefydliad.
- Yn sicrhau bod pob adran yn datblygu cynllun i ganfod lle gall tenantiaid gymryd rhan mewn cynnal gwelliannau i wasanaethau.
- Yn gwneud yn siŵr y bydd cyfarfodydd tîm adrannol yn ystyried cyfranogiad tenantiaid o fewn yr holl brosesau cynllunio.
- Yn cynnwys tenantiaid, lle bo'n addas i wneud hyn, wrth ddatblygu cynlluniau busnes a chyllidebau.
- Yn sicrhau fod y Bwrdd Rheoli yn deall ei rôl mewn perthynas â Chyfranogiad Tenantiaid.

Fe fydd aelodau unigol o staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i gynnwys tenantiaid yn eu gwaith. Fe fydd hyn yn cael ei gyflawni drwy wneud yn siŵr:

- Y bydd pob staff newydd yn cael eu briffio'n llawn yn y broses gychwynnol ynghylch prif rôl Cyfranogiad Tenantiaid.
- Y bydd pob disgrifiad swydd perthnasol yn cynnwys cyfansoddiad sy'n gysylltiedig â Chyfranogiad Tenantiaid a lle'n addas, y bydd Cyfranogiad Tenantiaid yn ffurfio rhan o'r asesiad mewn gwerthusiadau blynyddol.

Mae cyfleoedd eisoes yn bodoli i denantiaid, staff ag aelodau o'r Bwrdd i gyfarfod yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Panel Tenantiaid a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, a hefyd, yn Noson Gymdeithasol y Tenantiaid. O ganlyniad, fe fydd y Gymdeithas yn ymdrechu i barhau â'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau:

- Bod perthnasau rhwng tenantiaid, staff ag aelodau o'r bwrdd yn mynd o nerth i nerth.
- Bod staff a thenantiaid yn dangos cwrteisi a pharch at ei gilydd.

3. I gynyddu ymglymiad yr holl denantiaid ac i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder

Mae gan Gymdeithas Tai Teulu lawer o brofiad ac ymarfer mewn ymglymu tenantiaid, yn enwedig drwy'r Panel Tenantiaid. O ganlyniad, fe fydd Cymdeithas Tai Teulu yn cyflawni hyn drwy:

- Hysbysu tenantiaid a staff am faterion fel:
  - hawliau tenantiaid;
  - mynediad i wasanaethau;
  - safonau gwasanaethau;
  - gwaith Cymdeithas Tai Teulu a sut mae'n gweithio;
  - perfformiad gwasanaethau.

- Wella cyfathrebiad rhwng tenantiaid a staff. Fe fydd hyn yn cynnwys datblygu grŵp golygyddol ar gyfer y Cylchlythyr fydd yn cynnwys tenantiaid.
- Ofyn i'r tenantiaid am eu dewisiadau ar sut yr hoffent dderbyn gwybodaeth, ac am eu hoff ddull o ymgynghori â nhw neu eu cynnwys, a chwrdd â'r rhain.
- Gynnal proffil o denantiaid drwy nodweddion perthnasol fel ardal, oedran, math o gartref, cefndir ethnig, a hoffterau Cyfranogiad Tenantiaid; i'w defnyddio i dargedu dulliau a gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid
- Ddatblygu cysylltiadau gyda sefydliadau gwirfoddol a chymdeithasau ethnig sy'n gweithio gydag adrannau o denantiaid Cymdeithas Tai Teulu, er mwyn gwella sianeli cyfathrebu a deall anghenion penodol.
- Arolygu ac adolygu pob dogfen berthnasol gyda chymorth tenantiaid.
- Adolygu strwythur a gweithrediad y Panel Tenantiaid i fedru cydlynu ystod fwy eang o weithgareddau, ac i gynnwys nifer mwy o denantiaid yn y gweithgareddau hyn.
- Ystyried datblygu mwy o grwpiau tenantiaid yn lleol, a gosod strwythur cynrychiadol i'r Panel Tenantiaid
- .Ddefnyddio amryw o ddulliau gwahanol i gasglu barnau.

- Gefnogi datblygu mwy o gyfranogiad gan ddefnyddwyr gwasanaeth drwy sicrhau fod staff yn cael eu hyfforddi a bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfle i ddweud eu dweud ynghylch sut y mae eu cartrefi'n cael eu rheoli a sut y darperir gwasanaethau cefnogi.

Fe ragwelir y bydd angen rhywfaint o adnoddau ychwanegol i gefnogi'r cynnydd mewn Cyfranogiad Tenantiaid. O ganlyniad, fe fydd Cymdeithas Tai Teulu yn:

- Parhau i ddarparu digon o arian ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid, fel y mae'n gwneud nawr, ar gyfer gweithgareddau a hyfforddiant ar gyfer tenantiaid a staff. Gall tenantiaid gynorthwyo yn yr ymarfer yma drwy sgwrsio gyda swyddogion drwy gydol y flwyddyn a drwy fynegi eu dyheadau a allai gael eu cymryd i ystyriaeth pan fo'r adolygiad o gynllun busnes y Gymdeithas yn cael ei gynnal.
- Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi blynyddol i denantiaid, yn sgil eu cynllun gweithgareddau, a'n cytuno ar gynllun hyfforddi o fewn y cyllidebau sydd ar gael.
- Parhau i gefnogi'r Panel Tenantiaid a hefyd, y Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr annibynnol, a'n sicrhau cynrychiolaeth ddemocrataidd a gweithio'n gyfrifol.
- Galluogi tenantiaid i fanteisio o brofiad tenantiaid a landlordiaid eraill, ac i rannu eu profiad, drwy weithgareddau fel ymweliadau cyfnewid a rhwydweithiau, yn ogystal â seminarau a chynadleddau.

4. I ymdrechu i chware rhan mor llawn â phosib mewn gwella'r amgylchedd a'r gymuned (o fewn cyfyngiadau ariannol) drwy gydweithredu gyda thenantiaid, preswylwyr a phartneriaid ag asiantau eraill.

Mae Cymdeithas Tai Teulu yn cydnabod nad yw pryderon tenantiaid am eu cartrefi wedi'u cyfyngu i frics a mortar a gwaith landlord yn unig, ond eu bod yn ymestyn hefyd i'r problemau cymunedol ehangach. Fe fydd y Gymdeithas yn chwarae rôl mor llawn â phosib o fewn ei chyfyngiadau ariannol, yn enwedig pan fo hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar faterion rheoli tai a lles tenantiaid. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r rôl hon fod drwy bartneriaeth gyda sefydliadau statudol a gwirfoddol perthnasol eraill. O ganlyniad, fe fydd Cymdeithas Tai Teulu yn:

- Cefnogi ymglymiad staff a thenantiaid addas mewn fforymau partneriaeth sy'n delio gyda materion cymunedol perthnasol.
- Cyfrannu gyda landlordiaid eraill, fel bo'n addas, tuag at ddatblygu a gweithredu safonau amgylcheddol lleol fel dull o gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Gwneud ei gorau i alluogi tenantiaid i gael mynediad i adnoddau cymunedol.

8. Opsiynau Cyfranogiad

Mae'r Gymdeithas wedi'i hymrwymo i ddatblygu opsiynau cyfranogiad sy'n darparu

- Lefelau cyfranogiad gwahanol
- Ystod o ffyrdd o gymryd rhan
- Mewn ystod o ieithoedd a fformatau sy'n berthnasol i'r boblogaeth y mae'n gwasanaethu

Caiff ymrwymiadau Cymdeithas Tai Teulu eu canfod trwy'r ddogfen hon ac yn y Cynllun Gweithredu.

9. Adnoddau

Fe fydd Cymdeithas Tai Teulu'n cwrdd â gofynion y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiad Cenedlaethol i ariannu gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid fel eu bod nhw'n effeithiol. Mae hyn yn golygu:

- Gwneud darpariaeth gyllidebol glir ar gyfer swyddogaethau'r landlord o ran Cyfranogiad Tenantiaid ar wahân i ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer adnoddau i denantiaid yn uniongyrchol.
- Sicrhau fod amrywiaeth o adnoddau anariannol ar gael i gefnogi Cyfranogiad Tenantiaid a'i hysbysebu..
- Annog a chefnogi tenantiaid i ddarparu 'cynllun busnes' blynyddol o'u gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid, fel y gallai gael ei ystyried fel rhan o gylch cynllunio busnes y Gymdeithas.
- Monitro effaith gwariant Cyfranogiad Tenantiad i sicrhau gwerth am arian.
- Annog tenantiaid i gael arian gan ffynonellau eraill
- Darparu hyfforddiant i denantiaid, staff ag Aelodau o'r Bwrdd i wella sgiliau ac arbenigedd mewn Cyfranogiad Tenantiaid.
- Hyrwyddo'r adnoddau sydd ar gael i denantiaid i wella cyfranogiad e.e. grantiau cychwynnol ar gyfer sefydlu cymdeithasau preswylwyr lleol

FFAITH

Mae Cymdeithas Tai Teulu wedi bod yn darparu arian ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid (a chyllidebau ar wahân ar gyfer ei Phanel Tenantiaid, Hyfforddiant i Denantiaid a phresenoldeb yng nghynhadledd TPAS) am dros ddeng mlynedd.

10. Monitro a Thystiolaethu

Mae'n rhaid i ddatblygiad a chyflawniadau'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol gael eu monitro pob blwyddyn yn erbyn y canlyniadau a'r allgynhyrchion. Bydd llawer o'r cyflawniadau hyn yn weladwy wrth fonitro safonau perfformiad gwasanaethau, gan mai yma y gobeithir gweld effaith Cyfranogiad Tenantiaid. Fe fydd mesur effaith gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn anodd, ond fe fydd cofnodi gweithgareddau a gwerthuso pob gweithgaredd yn darparu darlun o'r gweithgaredd a'r effaith.

Fe fydd Cymdeithas Tai Teulu yn:

- Cofnodi holl weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid gan gynnwys y cyfranogwyr, y dulliau a ddefnyddir a'r rhesymau dros hynny, amseriad a gwerthusiadau o'r cyfranogwyr
- Cofnodi sut roedd grwpiau gwahanol o denantiaid yn cael eu hannog i gymryd rhan ym mha weithgareddau
- Rhoi arolwg i o leiaf sampl cynrychiadol o denantiaid pob blwyddyn, i bennu eu boddhad gyda darpariaeth gwybodaeth a pherfformiad gwasanaeth y Gymdeithas.
- Rhoi arolwg boddhad i bob tenant pan maen nhw'n derbyn unrhyw wasanaeth penodol
- Cynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol ar Gyfranogiad Tenantiaid wedi'i osod yn erbyn amcanion a thargedau'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu, er mwyn hysbysu tenantiaid a chynnwys tenantiaid wrth ail ddiwygio cynlluniau'r dyfodol.
- Sefydlu dynodwyr perfformiad, targedau a safonau perfformiad perthnasol mewn cysylltiad â Chyfranogiad Tenantiaid.

11. Blaenoriaethau a Graddfeydd amser

Bydd angen datblygu'r weledigaeth sy'n cael ei ddangos yn y Strategaeth hon ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid Cymdeithas Tai Teulu dros amser. Ni ellir gwneud popeth ar unwaith oherwydd diffyg gallu ac adnoddau. Ni fyddai hynny'n ddymunol nac yn effeithiol chwaith. Rhaid symud fesul tipyn o ran ymrwymiad ac agwedd, gan ehangu gweithgareddau a lefelau o gyfranogiad wrth symud ymlaen.

Dyma fydd y blaenoriaethau cynnar o ran datblygiadau yng Nghymdeithas Tai Teulu:

- Adolygu strwythur Cyfranogiad Tenantiaid uniongyrchol
- Sefydlu nifer o grwpiau ffocws ar gyfer meysydd gwasanaeth
- Hyrwyddo ethos Cyfranogiad Tenantiaid o fewn y Gymdeithas a'r cyrff ehangach o denantiaid
- Sefydlu grŵp i adolygu a datblygu deunyddiau gwybodaeth a dogfenni.

Fe fydd datblygiadau a gweithrediadau eraill yn cael eu cynnal mewn graddfa amser o tua blwyddyn:

- Datblygu cyfranogiad ar draws pob maes gwasanaeth
- Sefydlu systemau monitro a gwerthuso

- Ystyried cael Arolygwyr Tenantiaid i adolygu gwasanaethu

12. Casgliad

Pwrpas y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiad Lleol yw rhoi llais go iawn i denantiaid am y gwasanaethau maen nhw'n derbyn ac ym mhroses gwneud penderfyniadau cyffredinol Cymdeithas Tai Teulu. Bydd hyn o gymorth hefyd i'r Gymdeithas wella ei gwasanaethau'n barhaus ac felly, bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn nodi cynnydd a'r effaith ar wella gwasanaeth.

ATODIAD 1

Rhif Polisi: SPR019
Arolygwyd: 01/11/08
Prif Swyddog:HSP

PWRPAS Y POLISI

Mae'r polisi wedi'i atodi i'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiad Lleol ar gyfer Cymdeithas Tai Teulu.

Mae'n darparu fframwaith ar gyfer cyfranogiad tenantiaid ac ymgynghori â thenantiaid yn benodol mewn Tai â Chymorth. Gan fod y ddogfen hon yn ffurfio rhan o'r Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol ar gyfer Cymdeithas Tai Teulu, nid yw'r dulliau cyffredinol o ymgynghori, a'r cyfleoedd ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid a ddarperir gan y Gymdeithas wedi'u nodi yn y polisi yma, gan eu bod nhw eisoes yn cael eu cynnwys yn y ddogfen.

GORCHWYL

Mae Cytundebau Gwarant a Deiliadaeth y Tenantiaid yn amlinellu sut gall tenantiaid ddisgwyl derbyn gwybodaeth a derbyn ymgynghoriad ar sawl mater.

Mae'r polisi'n berthnasol i'r prosiectau canlynol:

- Prosiect WISH Teulu
- Prosiect Pobl Ifanc Castell-nedd
- Prosiect Tai â Chymorth Sir Gaerfyrddin
- Prosiect Cymorth fel y Bo'r Angen Sir Gaerfyrddin
- Prosiect Cymorth fel y Bo'r Angen Abertawe

POLISÏAU/GWEITHDREFNAU PERTHNASOL

- Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol y Gymdeithas
- Polisi ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau Cymorth
- Recriwtio a Dethol
- Cychwyn Deiliadaeth
- Ailddodrefnu

CYFRIFOLDEBAU

- Cyfrifoldeb y Rheolwr Tai â Chymorth yw gwneud yn siŵr fod yr holl staff yn gweithredu ac yn deall y polisi.

- Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i wneud yn siŵr eu bod nhw'n glynu wrth y polisi.

DIFFINIAD

Mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys er diben y polisi yma.

- ***Cyfranogiad***

Mecanwaith sy'n caniatáu i breswylydd ddylanwadu beth sy'n digwydd iddyn nhw, eu cartrefi ac ati.

- ***Ymgynghoriad***

Mecanwaith sy'n caniatáu i'r preswylydd dderbyn manylion, gwybodaeth a rhoi barn ar hyn.

Y WEITHDREFN

Adran 1 - Cymorth

MAES	BETH FYDDWN NI'N WNEUD	SUT FYDD YN CAEL EI GYFLAWNI
Dewis y Gweithiwr	Gall tenant ofyn a yw'n bosib iddyn nhw gael gweithiwr benywaidd neu wrywaidd. Mae'n rhaid i denantiaid roi eglurhad am hyn.	Mae'n rhaid i reolwyr ystyried y rhesymau am y cais, a hysbysu'r tenant o'u penderfyniad.
Cynlluniau Cymorth Unigol	Galluogi pobl i benderfynu pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw Galluogi i bobl ofyn a yw'n bosib i'w cynlluniau gael eu hadolygu'n fwy rheolaidd.	Drwy drafodaeth mewn adolygiadau Cynlluniau Cefnogi Drwy adolygu a newid cynlluniau yn ôl cais y tenant.
Cyfarfodydd	Fe fyddwn ni'n hysbysu'r tenantiaid o'u hawl i gael rhywun i fynychu cyfarfodydd gyda nhw, ac i siarad ar eu rhan.	Drwy roi gwybod iddyn nhw pan fo cyfarfodydd yn cael eu trefnu.

Adran 2 – RECRIWTIO A DETHOL STAFF

MAES	BETH FYDDWN NI'N WNEUD	SUT FYDD YN CAEL EI GYFLAWNI
Recriwtio Staff	Fe fyddwn ni'n gofyn i denantiaid pa sgiliau ag ansoddau maen nhw eisiau i aelodau newydd o staff eu cael.	Pob blwyddyn yn yr Arolwg i Denantiaid.

ADRAN 3 – DEWIS TENANTIAID (TAI A RENNIR)

MAES	BETH FYDDWN NI'N WNEUD	SUT FYDD YN CAEL EI GYFLAWNI
Tenantiaid Newydd	Fe fyddwn ni'n gwneud pob ymdrech i hysbysu'r tenantiaid newydd o enw a rhyw'r tenant newydd cyn i'r tenantiaeth gychwyn Fe fyddwn ni'n gwrando ar unrhyw bryderon sy'n cael eu mynegi, a gweithredu'n unol â hynny.	Drwy drafodaeth unigol gyda thenantiaid Ar ddisgresiwn y rheolwr

ADRAN 4 - GWYBODAETH

MAES	BETH FYDDWN NI'N WNEUD	SUT FYDD YN CAEL EI GYFLAWNI
Byrddau Hysbysu	Mae'n rhaid i fwrdd hysbysu fod ar gael ym mhob tŷ a rennir, i'w ddefnyddio gan y tenantiaid a'r staff **Fe fyddwn ni'n arddangos y wybodaeth ganlynol:** • Manylion cyswllt • Bwydlenni lle'n briodol • Manylion ynghylch sut i wneud cwyn i'r canlynol: • Cymdeithas Tai Teulu • Gwasanaethau cymdeithasol • Cofnodion o Gyfarfod y Panel Tenantiaid • Cofnodion o'r Cyfarfodydd Tai	Fe fydd staff yn diweddaru'r wybodaeth a ddarperir wrth iddo newid.

ADRAN 6 – RHEOLI TAI

MAES	BETH FYDDWN NI'N WNEUD	SUT FYDD YN CAEL EI GYFLAWNI
Addurno	Fe fyddwn ni'n cysylltu â thenantiaid ynghylch y lliwiau pan fydd ystafelloedd unigol neu ardaloedd cymunedol yn cael eu haddurno.	Fe fyddan nhw'n cael dewis o gyfres o liwiau sydd eisoes wedi cael eu dewis. Un' ai ar sail unigol (ystafelloedd) neu mewn Cyfarfodydd Tai (Ardaloedd Cymunedol)
Darparu Bwyd	Fe fyddwn ni'n annog tenantiaid i ddewis pa brydau maen nhw eisiau ac i fynd i siopa.	Bwydlenni i'w cytuno yn y Cyfarfodydd Tai Siopa i'w nodi mewn cynlluniau cefnogi unigol.

ADRAN 7 - POLISÏAU / GWEITHDREFNAU

MAES	BETH FYDDWN NI'N WNEUD	SUT FYDD YN CAEL EI GYFLAWNI
Polisïau a Gweithdrefnau	Fe fyddwn n 'n cysylltu gyda thenantiaid ynghylch yr holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y gwasanaethau maen nhw'n derbyn.	Grwpiau Ffocws Cyfarfodydd Tai Ar sail unigol Arolwg Blynyddol y Tenantiaid